

**Cyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd rhif 79/409 ar Warchod Adar Gwyllt  
Disgrifiad ar gyfer newidiadau arfaethedig i Ardal Gwarchodaeth Arbennig  
(AGA)**

**Enw: Skokholm and Skomer**

**Siroedd/Awdurdodau Unedig:** Mae'r AGA a'r estyniad arfaethedig yn gorwedd o fewn neu'n gyfagos i Awdurdod Unedol Sir Penfro ac mae'r ardal fewndirol yn gorwedd o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'r rhan o'r safle arfaethedig sy'n wynebu'r môr yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn dyfroedd tiriogaethol y DU.

**Ffin yr AGA arfaethedig:** Gweler map AGA arfaethedig. Mae'r safle arfaethedig yn ymestyn bron at derfyn y 3 milltir forol gyda mwyafrif y safle yn gorwedd o fewn terfyn 1 filltir forol. Er bod yr AGA yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pembrokeshire Marine / Sir Benfro Forol, yr ardal honno'n unig o'r AGA arfaethedig sy'n is na'r marc penllanw cymedrig sy'n gyd-drawol gyda'r ACA, a gafodd ei ddynodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2004 o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau'r UE 1992 (92/43/EEC).

Ni fwriedir i gynnwys unrhyw ardaloedd o dir ychwanegol yn yr AGA arfaethedig, heblaw am nifer fechan o greigiau brig sy'n gorwedd o fewn cwmpas 4 km. Ni fyddai'n ymarferol i eithrio'r ardaloedd bychain hyn o'r estyniad arfaethedig i'r AGA.

Mae'r safle newydd yn cynnwys yr ardaloedd tirol presennol a ddynodwyd fel AGA Skokholm and Skomer gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd yn Awst 1982, ac fel y'i hestynnwyd yn 1991 o dan Gyfarwyddeb yr UE 1979 ar Warchod Adar Gwyllt (79/409/EEC).

**Maint yr AGA:** Mae'r AGA presennol ac arfaethedig yn cynnwys arwynebedd o oddeutu 14,348ha.

**Disgrifiad o'r safle:** Mae'r ynnysoedd hyn wedi'u lleoli oddi ar ben de-orllewinol eithaf Sir Benfro yn ne-orllewin Cymru ac maen nhw'n cynnal niferoedd pwysig rhyngwladol o adar y môr sy'n bridio, yn arbennig felly pedrynod, gwylanod a charfilod. Yn arbennig o nodedig yw'r gyfran uchel, yn bell dros hanner, o boblogaeth y byd o adar drycin Manaw sy'n bridio yma. Yn ogystal, mae cynefinoedd arfordirol yr AGA arfaethedig yn cynnal poblogaethau preswyl pwysig o frain coesgoch a thylluanod clustiog. Mae llawer o'r adar môr yn defnyddio'r môr o gwmpas yr ynnysoedd ar gyfer nifer o weithgareddau hanfodol fel trwsio'u plu, ymolchi ac arddangos. Mae adar y môr sy'n nythu hefyd yn bwydo o fewn a thu allan i'r AGA mewn ardaloedd morol o gwmpas, yn ogystal â phellach i ffwrdd.

**Rhywogaethau cymhwysol:** Mae'r safle yn gymwys o dan **erthygl 4.1** o'r Gyfarwyddeb (79/409/EEC) oherwydd iddo gael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan 1% neu fwy o boblogaeth Prydain Fawr o'r rhywogaethau canlynol a restrir yn Atodiad I yn ystod unrhyw dymor:

Rhywogaethau Atodiad I	Cyfrif a thymor	Cyfnod	% o boblogaeth PF
Pedryn drycin <i>Hydrobates pelagicus</i> (bridio)	3500 pâr	cyfrif fel yn 1995	4.1%
Brân goesgoch <i>Pyrhocorax pyrrhocorax</i> (bridio)	4 pâr	cyfrif fel yn y 1990au hwyr	1.2%
Tylluan glustiog <i>Asio flammeus</i> (bridio)	6 pâr	cyfrif fel yn 1998	0.6%

\*Mae'r dylluan glustiog yn gymwys fel Rhywogaeth Atodiad 1 o dan ganllawiau dethol y DU ar gyfer AGA gan y JNCC

Yn ogystal, mae'r safle yn gymwys o dan erthygl 4.2 o'r Gyfarwyddeb (79/409/EEC) oherwydd iddo gael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan 1% neu fwy o boblogaeth bioddaearyddol neu Prydain Fawr o'r rhywogaethau mudol canlynol a geir yn rheolaidd (ac eithrio'r rhai hynny a restrir yn Atodiad I) mewn unrhyw dymor:

Rhywogaeth fudol	Cyfrif a thymor	Cyfnod	% o isrywogaethau neu boblogaeth
Aderyn drycin Manaw <i>Puffinus puffinus</i> (bridio)	150,968 pâr	cyfrif, fel yn y 1990au hwyr	56.9% o boblogaeth bridio'r byd
Pâl <i>Fratercula arctica</i> (bridio)	9500 pâr	cyfrif fel yng nghanol y 1980au	1.1% o boblogaeth bridio'r byd
Gwylan gefnddu leiaf <i>Larus fuscus</i> (bridio)	20,300 pâr	cyfartaledd 4 blynedd 1993 -1997	16.4% o boblogaeth bridio'r rhanbarth fioddaearyddol

**Cymhwyster y Casgliad:** Mae'r safle yn gynnwys o dan **erthygl 4.2** o'r Gyfarwyddeb (79/409/EEC) oherwydd mae'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan dros 20,000 o adar y dŵr yn ystod unrhyw dymor:

Yn ystod y tymor bridio mae'r safle yn cynnal o leiaf 394,260 o adar môr unigol yn rheolaidd, yn cynnwys llurs *Alca torda*, gwylog *Uria aalge*, gwylan goesddu *Rissa tridactyla*, pâl *Fratercula arctica*, gwylan gefnddu leiaf *Larus fuscus*, aderyn drycin Manaw *Puffinus puffinus*, pedryn drycin *Hydrobates pelagicus*.

DATA: Diweddarodd Adolygiad AGA 2001 (Stroud ac eraill, 2001) yr asesiad cynharach o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig y DU a gyhoeddwyd yn 1992 yng

ngolwg gwybodaeth newydd a bylchau posibl. Gofynnodd y Llywodraeth i'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) adolygu rhwydwaith AGA y DU ac argymhell rhestr bendant o safleoedd, wedi'u nodi yn erbyn canllawiau dethol eglur. Roedd hyn yn sefydlu gwaelodlin drwy'r DU yn erbyn yr hwn gellid asesu'r angen am newid yn y dyfodol. Mae'r data sy'n cael ei ddyfynnu uchod wedi'i gymryd o'r adolygiad hwn yn 2001 a oedd wedi'i seilio ar y data mwyaf diweddar a chynhwysfawr a oedd ar gael ar ddechrau'r adolygiad. Maen nhw'n darparu asesiad cymharol a gwaelodlin sefydlog, er bod data mwy diweddar wedi ymddangos ers hynny.

**Prif ffynonellau data am adar:**

BROOKE, M. 1990. **The Manx shearwater**. T & AD Poyser, Academic Press Ltd. Llundain.

JOHNSTON, C.M., TURNBULL, C.G., REID, J.B. & WEBB, A. 2004. **Marine Natura 2000: Update on Progress in Marine Natura**. Papur i Gyfarfod y Cyd-bwyllgor, Mawrth 2004.

MCSORLEY, C.A., DEAN, B.J., WEBB, A. & REID, J.B. 2003. **Seabird use of waters adjacent to colonies Implications for seaward extensions to existing seabird breeding colony SPAs**. Adroddiad gan y JNCC, rhif 329

MCSORLEY, C.A., WILSON L.J., DUNN, T.E., GRAY, C., DEAN, B.J., WEBB, A. & REID, J.B. 2008. **Manx shearwater *Puffinus puffinus* evening rafting behaviour around colonies on Skomer, Rum and Bardsey: its spatial extent and implications for recommending seaward boundary extensions to existing colony Special Protection Areas in the UK**. Adroddiad gan y JNCC, rhif 406

REID, J.B. AND WEBB, A. 2005. **Marine Natura 2000 – recommendations for the extension of existing seabird (colony) Special Protection Areas into the marine environment**. Papur Pwyllgor y JNCC 05 P14B.

STROUD, D.A., CHAMBERS, D., COOK, S., BUXTON, N., FRASER, B., CLEMENT, P., LEWIS, I., MCLEAN, I., BAKER, H. & WHITEHEAD, S. 2001. **The UK SPA network: its scope and content**. Cyfrolau 1-3. JNCC, Peterborough.

**Cyfrol 1: Rationale for the selection of sites.**

**Cyfrol 2: Species accounts.**

**Cyfrol 3: Site accounts.**